Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

# Cylch Chwarae Llandegfan
**Ysgol Gynradd Llandegfan**
**Llandegfan**
**Ynys Môn**
**LL59 5UW**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2016**

**gan**


**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/04/2016**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Saesneg yw Cylch Chwarae Llandegfan, sydd wedi ei leoli yn Ysgol Gynradd Llandegfan, yn awdurdod lleol Ynys Môn. Mae ar agor am dri bore ac un prynhawn yr wythnos ac mae gan y lleoliad dri aelod o staff llawn amser. Mae'n rhannu'r adeilad gyda'r Cylch Meithrin a'r clwb ar ôl ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 22 o blant mewn sesiwn. Mae'n derbyn plant o ddwy flwydd a hanner i bedair oed. Ar adeg yr arolygiad, mynychodd 17 plentyn. Mae'r awdurdod lleol yn ariannu 10 ohonynt.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig ac mae lleiafrif yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Ar hyn o bryd, mae ychydig iawn o blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd ei swydd ym mis Medi 2013. Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Hydref 2013. Arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2013.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Da |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- cynnydd pwrpasol gan blant ym mhob maes dysgu
- agweddau cadarnhaol gan blant tuag at ddysgu
- ymddygiad cyfrifol gan blant
- profiadau dysgu yn cael eu cynllunio'n dda
- y cwricwlwm yn eang, cytbwys a diddorol
- addysgu effeithiol yn canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen
- gofal diwyd a gofalus o'r plant yn bodoli
- adnoddau hygyrch a defnyddiol
- perthynas dda iawn rhwng oedolion a phlant

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- cyfarwyddyd clir i waith y lleoliad gan yr arweinydd
- systemau hunanwerthuso effeithiol yn cyfatebu'n dda i'r targedau yn y cynllun datblygu pwrpasol
- agwedd gadarnhaol a gweithredol tuag at ddatblygiad a hyfforddiant staff
- defnydd effeithiol o gymorth gan asiantaethau allanol
- her a thrylwyredd i waith y pwyllgor rheoli gweithgar a chefnogol

## Argymhellion

A1 Gwella cyfleoedd i blant i ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i blant symud yn annibynnol rhwng yr ardaloedd dysgu dan do a'r awyr agored

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyflawni safonau da erbyn diwedd eu cyfnod yn y lleoliad, o gofio’u mannau cychwyn. Maent yn gwneud cynnydd cyson wrth ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o dasgau pob dydd a thasgau mwy cymhleth ac yn eu medrau, yn enwedig eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r rhan fwyaf yn mynegi eu teimladau a'u hemosiynau’n dda drwy chwarae rôl yn yr ardal gaffi a chegin, cynnal trafodaethau synhwyrol gydag oedolion a'i gilydd am lyfrau a jig-sos a thrwy gydweithredu mewn chwarae brochus yn yr ardal allanol. Mae bron pob plentyn yn siarad yn glir ac yn gwneud yn siŵr bod pobl eraill yn eu deall wrth ymateb i gwestiynu oedolion a chymheiriaid yn ystod tasgau. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau gan eraill ac yn eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae hyn yn amlwg iawn wrth arbrofi â newid cyfeiriad tegan electronig.

Mae llawer o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau a mwynhau eu cynnwys wrth drafod cymeriadau a digwyddiadau’n hyderus gydag oedolion a phlant eraill. Maent yn trin llyfrau yn yr ardal ddarllen newydd fel darllenwyr naturiol. Mae'r rhan fwyaf yn dilyn storïau a ddarllenir iddynt yn dda. Maent yn ymateb yn synhwyrol i gynnwys y stori ac yn trafod y gaeaf, bywyd pengwiniaid a sut mae eira a rhew yn effeithio’r tywydd. Mae mwyafrif y plant yn defnyddio iaith soffistigedig mewn chwarae digymell a strwythuredig yn bwrpasol wrth chwarae darllen llyfrau i'w gilydd. Maent yn adnabod nodweddion personoliaeth cymeriad ac yn gallu egluro a yw cymeriad yn 'dda' neu'n 'ddrwg'.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn arbrofi gyda gwneud marciau yn effeithiol. Maent yn mwynhau profiadau ysgrifennu trwy ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel paent, byrddau sialc ac wrth gasglu archebion bwyd ar gyfer y caffi. Mae llawer o blant yn ffurfio llythrennau a rhifau’n dda. Mae lleiafrif o'r plant hŷn yn dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau’n annibynnol ac mewn ffurf adnabyddus wrth drin pensiliau a chreonau. Mae mwyafrif y plant yn egluro diben ysgrifennu yn y cyd-destun cywir. Mae llawer yn adnabod eu henwau eu hunain ac eraill, trefnu llythrennau’n hyderus, ac yn rhannu syniadau’n synhwyrol am yr hyn y maent yn ceisio ei esbonio neu gofnodi ar bapur.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol ac mewn cyd-destunau perthnasol. Mae'r rhan fwyaf yn cyfrif, adnabod ac enwi rhifau i ddeg yn hyderus ac mae ychydig yn cyfrif i 20. Mae mwyafrif y plant yn deall yn glir sut i ddechrau bondio rhifau at ddeg gan ddefnyddio eu bysedd eu hunain a thrwy drefnu gwrthrychau. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau ymarferol yn effeithiol, er enghraifft cyfrif ar ôl taflu dis a chanu rhifau o ddeg i sero mewn caneuon gan ddefnyddio gwahanol gymeriadau.

Mae bron pob plentyn yn defnyddio ystod dda o iaith fathemategol wrth chwarae gyda'i gilydd.  Er enghraifft, maent yn disgrifio rhannau o'r corff fel 'bach' a 'mawr' wrth beintio pengwiniaid yn greadigol a chymharu maint pysgod.  Maent hefyd yn defnyddio rhifau’n ymarferol a’n llwyddiannus wrth drafod 'llai na' a 'mwy na' wrth gymharu siapiau dau a thri dimensiwn.  Mae bron pob un plentyn yn grwpio gwahanol fathau o wrthrychau yn ôl lliw, maint a siâp yn gywir.  Maent yn trafod gwahanol siapiau yn synhwyrol wrth ddatrys posau siâp a thorri allan siapiau gwahanol â siswrn.

Mae bron pob un plentyn yn gwrando ar gerddoriaeth â mwynhad ac yn ymateb yn frwdfrydig i hwiangerddi.  Maent yn cydweithio’n hyderus yn ystod eu hamser gerddorfa ac mae pob plentyn yn trin a defnyddio gwahanol offerynnau cerdd yn effeithiol.  Mae'r rhan fwyaf o'r plant wedi datblygu medrau meddwl da ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau maent yn eu cyflawni.  Er enghraifft, maent yn gweithio gydag eraill yn ddeallus wrth adeiladu modelau pengwin trwy ddefnyddio glud.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio technoleg yn addas wrth ddefnyddio llechi ac mewn gweithgareddau bob dydd fel defnyddio ffonau symudol, clustffonau a chwaraewyr disg.  Mae llawer o blant yn defnyddio'r cyfrifiadur ac offer technoleg gwybodaeth, fel camerâu a theganau electronig yn briodol.  Fodd bynnag, mae’r diffyg o ddarpariaeth dechnolegol yn amharu ar ddatblygiad plant.

Mae bron pob un plentyn yn deall beth i'w wneud pan gyfeiriwyd yn y Gymraeg ac mae’r mwyafrif yn defnyddio'r Gymraeg heb anogaeth oedolyn.  Maent yn canu hwiangerddi a chaneuon yn y Gymraeg yn frwdfrydig.

**Lles:  Da**

Mae bron pob plentyn, yn unol â'u hoedran, â dealltwriaeth dda o sut gallant gadw'n iach.  Maent yn golchi eu dwylo'n drylwyr cyn bwyta’u byrbrydau ac yfed.  Maent yn gwneud hyn heb lawer o anogaeth.  Mae ganddynt ddealltwriaeth dda bod diet iach yn cynnwys ffrwythau a llysiau.  Maent yn egluro’n ddeallus bod ymarfer corff yn eich cadw'n heini a bod gweithgareddau corfforol yn gwneud i'ch calon guro'n gyflymach.

Mae bron pob un plentyn yn ymddwyn yn dda.  Maent yn gwrtais ac yn ymateb gyda pharch at oedolion a'i gilydd.  Mae’r rhan fwyaf o blant yn dangos lefelau da o hunan-hyder, er enghraifft, wrth baratoi ar gyfer amser byrbryd ac wrth wisgo eu hunain ar gyfer chwarae yn yr awyr agored.  Mae bron pob un plentyn yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu.  Maent yn mwynhau'r gweithgareddau yn y meysydd dysgu a rhannu a gweithio'n synhwyrol gyda chyfoedion.  Mae bron pob un plentyn yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd yn y lleoliad a phan fyddant yn gadael.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos agweddau cadarnhaol at brofiadau a dysgu newydd.  Maent yn ymwybodol o anghenion eraill ac yn dangos parch atynt wrth rannu mewn tasgau gan ddefnyddio dŵr a thywod ac wrth olchi eu dwylo cyn byrbrydau.  Mae llawer o blant yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol.  Maent yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad ac maent yn awyddus i drafod eu hoff weithgareddau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn deall bod ganddynt hawliau fel unigolion a bod ganddynt yr hawl i fynegi barn, er enghraifft, wrth benderfynu i aros ar dasg ffocws dan do neu i ymuno mewn chwarae yn yr awyr agored.  O ganlyniad, mae bron pob un plentyn yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, ymgysylltu a ffocws.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

Mae'r lleoliad yn darparu’r cwricwlwm yn effeithiol ac mae’n adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn dda.  Mae'r profiadau dysgu yn targedu anghenion a diddordebau plant yn llwyddiannus ac yn eu hysgogi i ddysgu’n bwrpasol.  Mae'r plant yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a mynegi eu diddordebau yn yr holl themâu, sy'n cynnwys 'Gaeaf' ac 'Ar y fferm'.  Mae hyn yn cyfrannu'n dda tuag at eu cymhelliant.

Mae'r staff yn cynllunio profiadau dysgu’n drwyadl.  Mae themâu a gweithgareddau’n cael eu trafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd staff ac mae’r arweinydd yn cynllunio gweithgareddau'r thema.  Mae hi'n rhannu’r gweithgareddau hyn gyda staff a phlant, sy'n cyfrannu eu syniadau i gyfoethogi'r gweithgareddau pellach.  Mae’r staff felly, yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu gweithgareddau hyblyg ac arloesol.

Mae'r profiadau dysgu ysgogol, sy'n cynnwys heriau gydag olwyn ddŵr, a thasgau corfforol gyda parasiwt yn neuadd yr ysgol, yn darparu dilyniant a pharhad yn dysgu'r plant.  Mae'r cwricwlwm yn herio pob plentyn ym mhob maes dysgu, yn enwedig mewn tasgau llythrennedd a rhifedd.  Mae'n adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant ac mae’n cysylltu’n gyson i strategaethau asesu’r lleoliad i dargedu’r camau nesaf yn dysgu’r plant.  Mae'r cofnod dyddiol o gynnydd a gedwir gan yr arweinydd yn dylanwadu ar dasgau’r dyfodol yn dda i herio pob plentyn.

Mae staff yn darparu cyfleoedd cadarnhaol i blant gymryd risgiau ac i ddatblygu mewn i ddysgwyr annibynnol.  Maent yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol, meddwl a chreadigol y plant yn ddeallus.  Mae tasgau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob maes dysgu, sy'n herio pob plentyn yn gyson.

Mae'r lleoliad yn cynllunio’n fanwl ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl y plant.  Cydlynir y ddarpariaeth ar gyfer y medrau hyn yn effeithlon fel bod cydlyniad ym mhrofiadau'r plant ar draws y cwricwlwm.  Mae'r deunyddiau a’r dulliau cyflwyno yn cael eu haddasu'n dda i wneud y cwricwlwm yn hygyrch i bob plentyn.  Mae’r cynllunio o wneud marciau a thasgau rhif ar draws yr holl feysydd dysgu yn ysgogol a deniadol.  Maent yn ddilyniadol a heriol, sy'n annog plant i ffurfio llythrennau a rhifau mewn ffurfiau hadnabyddus.  Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu TGCh yn llai amlwg, sy'n cyfyngu’r ddatblygiad o fedrau TGCh y plant.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn gadarnhaol.  Er enghraifft, mae teithiau ar drenau, ymweliadau â ffermydd lleol, sw môr a gwyliau yn ychwanegu diddordeb i'r cwricwlwm.  Mae ymwelwyr, sy'n cynnwys storïwr o Batagonia, yn addysgu plant yn bwrpasol am ddiwylliant a threftadaeth Cymru.

Mae'r staff yn darparu cyfleoedd dysgu diddorol sy'n annog plant i ddangos parch a goddefgarwch tuag at bobl o bob cefndir diwylliannol. Mae hyn yn cynnwys dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Diwali ac Eid. Mae'r profiadau a gynllunnir yn datblygu gwell dealltwriaeth o'r byd i'r plant.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn dda. Mae'r holl staff yn modelu'r iaith yn effeithiol. Maent yn annog plant i ddefnyddio'r Gymraeg cymaint ag sy'n bosibl yn eu dysgu. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau o ddiwylliannau Cymru yn ystyrlon, sy'n cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen.

**Addysgu: Da**

Mae addysgu'r staff yn effeithio'n gadarnhaol ar ddysgu'r plant. Mae gan yr holl staff wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r Cyfnod Sylfaen ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu pob plentyn. Mae'r staff yn chwarae rôl weithredol wrth gynllunio'r cwricwlwm ac mae'r defnydd gorau'n cael ei wneud o'u harbenigedd. Maent i gyd yn gadarnhaol iawn wrth i'r plant gyrraedd ac maent yn parhau gyda'r brwdfrydedd hwn trwy gydol y sesiwn.

Mae ymyrraeth gan oedolion yn sensitif a medrus, sy'n annog plant i gymell eu hunain wrth iddynt ddysgu. Mae'r addysgu'n heriol ac mae'r staff yn deall y pwysigrwydd i roi cyfleoedd i blant i ddysgu trwy chwarae a phrofiadau ysgogol. Mae'r staff yn cynllunio cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan blentyn ac arweinir gan staff, sy'n cyrraedd anghenion unigol y plant yn synhwyrol. Maent yn gwneud defnydd da a dychmygus o adnoddau ac maent wedi ail-drefnu y lleoliad yn bwrpasol i dargedu cyfleoedd darllen cynnar i blant. Mae trefniant o'r fath ym mhob maes dysgu yn sicrhau bod yr holl blant yn cyfranogi a chyfrannu'n ystyrlon at dasgau.

Mae'r holl staff yn amseru cyflwyniadau i dasgau'n effeithiol i gynnal diddordeb pob plentyn yn y gweithgaredd. Mae staff yn rheoli ymddygiad plant yn dda iawn. Mae'r holl staff yn fodelau iaith da yn y Gymraeg, sy'n annog pob plentyn i ddefnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd mewn arferion bob dydd. Mae cwestiynu'r staff yn y Saesneg a'r Gymraeg yn herio plant yn gyson, sy'n datblygu eu medrau meddwl a chyfathrebu'n dda.

Mae'r staff yn darparu amgylchedd ysgogol, heriol a chyffrous, y tu mewn a'r tu allan. Mae hyn yn annog ymglymiad, cyfranogiad a mwynhad y plant. Er enghraifft, mae cyfleoedd i wneud marciau yn yr ardal allanol yn annog plant i dynnu llun a dechrau ymarfer ysgrifennu cynnar yn annibynnol. Fodd bynnag, nid yw'r plant yn symud yn annibynnol rhwng yr ardaloedd dysgu dan do a'r awyr agored heb gyfarwyddyd oedolion. Mae hyn yn cyfyngu ar eu dewis ar sut i gwblhau tasgau ac mae'n cyfyngu ar eu cyfleoedd ar gyfer dysgu'n annibynnol.

Mae’r staff yn annog y plant i werthuso’u gwaith yn llwyddiannus wrth iddynt drafod cymeriadau maent wedi peintio neu adeiladu, gwerthuso seiniau a wneir gydag offerynnau cerdd ac amcangyfrif pellteroedd a deithir gan theganau electronig. Mae’r staff yn cofnodi gwerthusiadau dyddiol ac maent yn arwain yn effeithiol i dasgau a thargedau plant yn y dyfodol. Mae hyn yn mynd i'r afael â'r camau nesaf yn eu dysgu’n bwrpasol. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau'r plant yn ddiwyd ac yn effeithlon. Mae hon yn broses a reolir yn dda, yn gadarnhaol ac yn ddiogel. Mae rhieni a gofalwyr yn derbyn adroddiadau llawn gwybodaeth am gyflawniadau eu plant. Mae’r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw adeg.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd cadarnhaol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Er enghraifft, mae’r staff yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn synhwyrol, drwy gyfleoedd cyson i blant fyfyrio, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo.

Mae’r staff yn caniatáu i blant i weini diodydd i eraill a dosbarthu ffrwythau wrth y byrddau bwyta. Mae hyn yn annog plant yn effeithiol i gymryd eu tro’n gwrtais yn ystod amser byrbryd. Mae gan y lleoliad drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae trefniadau pwrpasol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant, sy'n dylanwadu ar ddysgu plant yn bwrpasol. Mae'r rhain yn cynnwys y defnydd o neuadd yr ysgol ar gyfer gweithgareddau corfforol a defnydd yr ardaloedd plannu tu allan, lle mae’r plant yn palu, plannu a thyfu ffrwythau, llysiau a pherlysiau eu hunain.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd da i'r plant i ailgylchu bwyd, papur a photeli plastig. Maent hefyd yn compostio bwyd mewn biniau compost yr ysgol. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn dda, sy'n dileu unrhyw fath o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae gan yr holl staff gymwysterau addas a phrofiad da. Mae'r gymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol. Mae'r lleoliad yn defnyddio arbenigedd staff yn dda wrth gynllunio, addysgu a goruchwylio gweithgareddau. Mae’r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion yn y lleoliad ac mae pob plentyn yn gofyn am help a chefnogaeth pan fo'i angen.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r lleoliad yn ddiogel, gyda’r drysau a’r giatiau wedi'u cloi. Aelodau o staff sy’n eu hagor. Nid oes unrhyw un yn dod i mewn yn ddirybudd ac na all plentyn gadael heb gwmni. Mae’r staff yn sicrhau bod plant o dan ofal eu rhieni neu ofalwr cyfarwydd cyn bod unrhyw un yn gadael.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu’r plant yn effeithiol pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Mae'r lleoliad yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd. Felly, mae'r lleoliad yn targedu plant yn dda gyda chefnogaeth ychwanegol pan fo angen. Mae'r staff yn trafod y rhain gydag asiantaethau priodol. Yr arweinydd yw’r cydlynydd dysgu ychwanegol ac mae hi'n gyfarwydd iawn â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r holl feysydd dysgu ac offer. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm diddorol ac amrywiol y tu mewn i'r adeilad ac yn yr awyr agored.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy'r gweithgareddau dyddiol a'r agwedd a fabwysiadir gan y staff. Mae pawb yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn llwyddiannus trwy ddathlu gwahanol wyliau o bob cwr o'r byd fel Diwali, Eid a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau’n bwrpasol i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Anogir y plant i symud yn rhydd o amgylch y meysydd dysgu ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys symud yn rhydd rhwng y tu mewn a thu allan yr adeilad. Mae'r adnoddau helaeth yn hygyrch i blant, sy'n hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn llwyddiannus. Mae’r gweithgareddau parhaus, y tasgau ffocws a’r cyfleoedd i gyfoethogi yn rhannu adnoddau dysgu yn effeithiol ac mae eu defnydd gan y plant yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu.

Mae ardal allanol effeithiol yn bodoli, sy'n cynnwys ardaloedd tyfu a phlannu. Mae'r staff yn defnyddio cyfleusterau’r ysgol yn dda. Mae hyn yn cynnwys y defnydd rheolaidd o neuadd yr ysgol i hyrwyddo datblygiad corfforol y plant a thiroedd yr ysgol ar gyfer ymchwiliadau amgylcheddol fel helfeydd pryfed. Mae'r adeilad yn estyniad o adeilad yr ysgol. O ganlyniad, mae o ansawdd da, yn ddiogel iawn ac mewn cyflwr da.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn hyrwyddo ac yn cynnal gwelliannau. Mae'r arweinydd yn rheoli addysgu a dysgu’n dda ac mae disgwyliadau'r holl staff yn uchel. Mae amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau’r arweinydd a'r pwyllgor rheoli’n canolbwyntio'n uniongyrchol ar ddarpariaeth effeithiol, sy'n targedu anghenion plant. O ganlyniad, mae'r arweinyddiaeth yn sicrhau bod deilliannau ar gyfer plant yn dda.

Mae'r lleoliad yn gweithredu ac yn monitro'r cynlluniau ar gyfer gwella yn bwrpasol yn erbyn camau gweithredu ac amserlenni priodol. Mae'r arweinydd a’r pwyllgor rheoli’n sicrhau bod y staff yn deall eu rolau’n llawn ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn ddiwyd fel tîm. Mae hyn yn sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel, sy'n effeithio’n dda ar ddeilliannau plant.

Mae'r lleoliad yn defnyddio arweiniad asiantaethau allanol yn effeithiol fel yr awdurdod lleol a Chymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru. Mae'r arfer hwn yn sicrhau'r defnydd gorau o arbenigedd staff. Mae'r arweinyddiaeth ofalgar yn cymell staff tuag at welliannau mewn ffyrdd cadarnhaol, synhwyrol a chefnogol. Mae'r arweinydd, staff a’r pwyllgor rheoli’n cynllunio’n bwrpasol i ddarparu profiadau dysgu diddorol ar gyfer plant, dan do ac yn yr awyr agored.

Mae'r arweinydd a’r pwyllgor rheoli yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad yn gyson i greu gwelliannau, fel yr angen i wella adnoddau technoleg gwybodaeth ac i ddatblygu gardd bywyd gwyllt drwy gyllid grant.

Mae gan y lleoliad ffocws clir ar sicrhau cynnydd yn erbyn blaenoriaethau’r lleoliad. Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen weithredol. Mae'r lleoliad yn nodi'r blaenoriaethau priodol ar gyfer gwelliant trwy weithdrefnau hunanarfarnu cadarn. Mae'r arweinydd a’r pwyllgor rheoli’n cynnal gwerthusiadau cyson i sicrhau bod adnoddau ar gael i gwrdd â'r amcanion gwella.

Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r arweinydd yn nodi anghenion hyfforddi a datblygu’n glir. Mae hi felly’n blaenoriaethu a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi staff yn llawn. Mae polisïau’n weithredol ac mae'r lleoliad yn bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel gweithredu gofynion y Cyfnod Sylfaen a thargedu darpariaeth llythrennedd a rhifedd yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r hunanarfarnu a'r cynllunio i ddatblygu yn rhan reolaidd a phwysig o fywyd gwaith y lleoliad. Mae'n nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella, monitro darpariaeth ac asesu deilliannau plant yn effeithiol. Mae'r broses yn cynnwys adolygiadau trylwyr ar bob agwedd o fywyd y lleoliad a'r modd y mae'r rhain yn effeithio ar y safonau a gyflawnir gan blant. Mae'r pwyllgor rheoli’n chwarae rhan effeithiol yn y broses, sy'n cynnwys adolygiad blynyddol o waith y lleoliad gan aelodau'r pwyllgor.

Mae'r holl staff yn cyfrannu'n llawn at y broses a'r ddogfen derfynol. Mae'r arweinydd yn rheoli'r lleoliad yn ddiwyd ar sail asesiad cywir o'i chryfderau a'i gwendidau. Mae'r arweinydd yn arfarnu ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn rheolaidd, sy'n targedu gwell cyfleoedd hyfforddi a datblygu i wella arferion addysgu. Mae'r arweinydd a’r pwyllgor rheoli’n cymryd camau i gynnal arfer effeithiol a gweithredu newidiadau’n llwyddiannus.

Mae'r hunanarfarniad yn ystyried safbwyntiau plant, staff, rhieni a gofalwyr, y pwyllgor rheoli, yr awdurdod lleol a Chymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru. O ganlyniad, mae'n arwain at gynllun datblygu trylwyr. Mae'r cynllun datblygu yn monitro gwelliannau yn erbyn targedau clir a meini prawf llwyddiant. Mae'n rhoi blaenoriaeth i'r materion mwyaf pwysig i wella ac mae'n ariannu gwelliannau’n dda, sy'n cynnwys y llwyddiant o ennill cyllid grant sylweddol ar gyfer TGCh a gwelliannau yn yr awyr agored. Felly, mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu’n treiddio’r cynlluniau dyddiol ac hir dymor y lleoliad.

Trwy gynnwys yr holl staff yn y broses hon, maent yn awyddus i dderbyn syniadau newydd ac i arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o weithio, a awgrymwyd gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a Chymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru. Er enghraifft, cyngor ar sut i weithredu asesiadau newydd i nodi man cychwyn pob plentyn ac argymhellion ar sut i wella'r hunanarfarnu, drwy raddio gwaith y lleoliad yn erbyn meini prawf penodol. Mae'r rhain wedi effeithio ar ansawdd y profiadau dysgu a'r addysgu'n dda. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n strategol gyda phartneriaid i wella darpariaeth a safonau a lles plant. Mae effaith y partneriaethau strategol ar safonau a lles plant yn sylweddol, yn enwedig cysylltiadau cryf iawn y lleoliad gyda'r ysgol. Mae'r lleoliad wedi ei leoli yn yr ysgol ac mae ganddo berthynas lwyddiannus iawn gyda staff yr ysgol. Mae hyn yn cefnogi trefniadau trosglwyddo plant yn dda iawn. Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo asesiadau a gwybodaeth bersonol yn effeithiol ac o fudd i'r plant wrth iddynt ymgartrefu yn yr ysgol.

Mae partneriaeth y lleoliad gyda'r awdurdod lleol a Chymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru hefyd yn fuddiol. Mae'r perthynas gadarnhaol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r swyddog Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru yn ehangu gwaith y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn defnyddio cysylltiadau cymunedol yn effeithiol i gefnogi dysgu'r plant, sy'n cynnwys cyfranogi'n llwyddiannus mewn gweithgareddau'r ysgol a'r pentref. Mae staff yn gweithio ac yn cysylltu ag ystod dda o grwpiau partneriaeth eraill, sy'n gwneud cyfraniad cryf i wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cefnogi'r lleoliad gyda hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd a hyfforddiant diogelu.

Mae'r staff yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd o waith y lleoliad. Maen nhw'n cael eu hannog i gynnig eu barn eu hunain ar faterion i wella'r lleoliad.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinyddiaeth yn gryf ac mae'n anelu gyson i wella pob agwedd o waith y lleoliad. Mae'n galluogi staff i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus. Mae'r cynllunio strategol yn cefnogi addysgu effeithiol yr holl staff.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n llwyddo i sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o staff cymwys gyda hyfforddiant priodol. Mae'n gymuned ddysgu gref, sydd â diwylliant o gydweithio rhwng staff a phartneriaid eraill sy'n ymwneud â'r lleoliad, sy'n cynnwys cysylltiadau cryf gyda'r ysgol. Mae'r systemau rheoli perfformiad yn drylwyr ac yn arwain at welliannau a gwell addysgu gan staff.

Mae'r lleoliad yn rheoli ei hadnoddau yn bwrpasol i gefnogi dysgu ac i greu gwelliannau yn y lleoliad. Mae dealltwriaeth glir o'r gyllideb gyda'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol â'u camau arfaethedig ar gyfer gwella'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys y defnydd effeithlon o gyllid grant. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd o arian yn cael effaith uniongyrchol ar gyflawniadau a lles plant. Mae'r lleoliad yn darparu'r safonau gorau posibl o fewn ei gyllideb o ran yr adeilad ac adnoddau.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian oherwydd deilliannau llwyddiannus y plant, darpariaeth effeithiol y staff a'r arweinyddiaeth bwrpasol.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr Arolygydd Cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |